

<u>Canllawiau sut i gael Office AM DDIM</u> <u>ar eich cyfrifiadur.</u>



Dilynwch y camau yma neu gwyliwch y clip fideo: <u>https://youtu.be/9rAo2s-VM4g</u>

Gosod Office 365 i'w ddefnyddio yn y cartref

Bydd defnyddwyr â thrwydded Microsoft A3 yn gallu lawrlwytho Office 365 ProPlus ar **hyd at 5 dyfais bersonol** gan gynnwys cyfrifiaduron personol, Macs a dyfeisiau symudol.

Bydd y Porth Rheoli Defnyddwyr a'r gwasanaeth darparu yn ymdrin â dyrannu trwyddedau, ond bydd modd lawrlwytho meddalwedd yn uniongyrchol o denant Office 365 Hwb.

- 1. Mewngofnodwch i Hwb ac ewch i Office 365
- 2. Cliciwch ar y gwymplen Install Office (yng nghornel dde uchaf y dudalen)
- 3. Cliciwch Install software
- 4. O dan My installs, cliciwch Install Office
- 5. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin (gall gymryd amser i'w osod yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad â'r rhyngrwyd).
- 6. Pan fyddwch wedi'i osod, agorwch ap fel Word a darllenwch a derbyn "Y print mân".
- Bydd ffenestr naid yn ymddangos ac yn gofyn i chi ddewis Default File Type. Dewiswch Office Open XML formats > Cliciwch OK.
- 8. Cliciwch **Sign in to get the most out of Office** (yng nghornel dde uchaf y dudalen) a rhowch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar gyfer Hwb. Bydd hyn yn cysylltu'r gwasanaethau ychwanegol â'r gosodiad Office, fel OneDrive.
- Os ydych chi'n defnyddio Windows 10, mae'n rhaid i chi dderbyn y neges sy'n ymddangos. Efallai y byddwch yn dymuno tynnu'r tic ar Allow my organization to manage my device a dewis This app only.

JAW / CW 2021